



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau ar gyfer y GIG yng Nghymru ynglŷn â chyrff cyfrifol

Cynnwys

1. Cwmpas a Diben y Canllawiau hyn	1
2. Y Rheolau Preswyliaeth	2
3. Eglurhad Pellach o'r Rheolau Preswyliaeth ar gyfer Grwpiau	
Penodol	4
Pobl â hawl i ddefnyddio'r GIG sy'n gofyn o wlad dramor am driniaeth	4
Pobl sy'n mynd yn sâl mewn gwlad dramor.....	5
Ymwelwyr o Wledydd Tramor.....	4
Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Aflwyddiannus	5
Mewnfundwyr dan gadw.....	5
Preswylwyr Dros Dro.....	6
Aelodau o'r Lluoedd Arfog.....	6
Pobl dan gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983	7
Carcharorion.....	7
Pobl Heb Gartref Sefydlog.....	8
Myfyrwyr	8
4. Eithriadau i'r Rheolau Preswyliaeth ar gyfer Gwasanaethau	
Penodol	9
Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys	9
Gwasanaethau Iechyd Rhywiol	9
5. Y Rheolau Preswyliaeth mewn perthynas â ffiniau mewnol y Deyrnas	
Unedig	9
Protocol Trawsffiniol Cymru a Lloegr.....	10
Newidiadau i gyfrifoldeb pan fo pobl yn symud eu preswylfa ar draws ffiniau mewnol y Deyrnas Unedig.....	11
6. Y Corff Cyfrifol am Ofal Hirdymor a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG	
mewn Cartrefi Gofal	13
Trefniadau Gofal Hirdymor	13
Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn Cartrefi Gofal	14
Gofal Iechyd Parhaus y GIG mewn Cartrefi Nyrsio	15
7. Y Corff Cyfrifol am Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc	
Plant sy'n Derbynn Gofal	17
Lleoliad/Llety y Tu Allan i'r Ardal i Blant a Phobl Ifanc.....	18
Lleoliadau Arbenigol i Blant.....	20
8. Gwasanaethau Cludiant Ambiwlans Brys a Gwasanaethau Gofal Cleifion mewn Achosion nad ydynt yn rhai brys (PCS)	22

1. Cwmpas a Diben y Canllawiau hyn

1.1 Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith ar gyfer cadarnhau pa gorff sy'n gyfrifol am sicrhau gofal iechyd eilaidd a thrydyddol i unigolyn yn y GIG yng Nghymru. Mae'n disodli'r canllawiau ar Gadarnhau Ardal Breswyl a nodir yn DGM (94) 15 a DGM (93) 133. Er bod polisi wedi newid ers hynny, nid oedd y canllawiau wedi cael eu diwygio'n ffurfiol.

1.2 Nodir y sail gyfreithiol ar gyfer swyddogaethau a gyfarwyddir Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yn Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009¹. Nod y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar gymhwyso'r fframwaith cyfreithiol hwnnw i sefyllfaoedd penodol.

1.3 Yn gyffredinol, y corff cyfrifol fydd y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) lle mae'r person yn ystyried ei fod yn preswyl fel arfer. Esbonnir hyn yn fanwl yn Adran 2. Mae'r adrannau dilynol yn darparu rhagor o eglurhad ynghylch y corff cyfrifol mewn achosion a sefyllfaoedd penodol. Ar gyfer cyfrifoldeb am rywun sy'n preswyl yn Lloegr ac sydd wedi'i gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yng Nghymru, gweler adran 5².

1.4 Nid oes modd ymdrin â phob sefyllfa bosibl yn y canllawiau hyn. Wrth gadarnhau cyfrifoldeb, disgwylir i bob rhan o'r GIG weithredu er budd pennaf y claf bob amser, gan gydweithio mewn partneriaeth, a chadw at yr egwyddor sylfaenol.

Egwyddor Sylfaenol

1.5 Mae diogelwch a lles cleifion o'r pwys mwyaf. Y brif egwyddor yw na ddylid gwrthod na gohirio unrhyw driniaeth oherwydd ansicrwydd neu amwysedd ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu darpariaeth gofal iechyd unigolyn.

¹ O.S. 2009 Rhif 1511 (Cy.147) Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

² Y canllawiau perthnasol yn Lloegr yw *Who Pays? Establishing the responsible commissioner*

http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_078466

2. Y Rheolau Preswyliaeth

2.1 Mae'r adran hon yn cadarnhau pa BILI sy'n gyfrifol am sicrhau gwasanaethau ar gyfer gofal a thriniaeth preswylwyr.

2.2 Mae BILlau yng Nghymru'n gyfrifol am gynllunio, ariannu, dylunio, datblygu a sicrhau y cyflenwir gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac mewn ysbytai ar gyfer y preswylwyr yn eu hardaloedd priodol. Ar gyfer gwasanaethau arbenigol iawn a thrydyddol maent yn gwneud hyn trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC).

2.3 Caiff y corff cyfrifol ei gadarnhau ar sail yr ardal BILI lle mae'r person yn preswyllo fel arfer. Yn bennaf, y sawl sy'n penderfynu preswylfa'r claf yw'r claf ei hun, ac mae unigolion yn rhydd o hyd i roi eu dirnadaeth eu hunain o ble maent yn ystyried eu bod yn preswyllo.

2.4 Cymerir mai'r breswylfa arferol yw'r cyfeiriad a roddir gan y person fel yr un lle mae'n byw fel arfer³. Os yw pobl yn ystyried eu bod yn preswyllo mewn cyfeiriad sydd, er enghraifft, yn hostel, yna dylid derbyn hyn. Ni ystyrir cartrefi gwyliau neu ail gartrefi'n breswylfeydd "arferol".

2.5 Os na all person roi cyfeiriad lle mae'n ystyried ei fod yn preswyllo, yna bydd y cyfeiriad yr oedd yn preswyllo ynddo ddiwethaf yn cadarnhau'r BILI preswyllo⁴. Nid oes unrhyw amgylchiadau rhagnodedig lle bo'n ofynnol i berson gyfiawnhau peidio â darparu cyfeiriad.

2.6 Os yw claf yn methu rhoi neu os yw'n analluog i roi naill ai cyfeiriad cyfredol neu gyfeiriad mwyaf diweddar ac na ellir cadarnhau cyfeiriad trwy ryw ffordd arall (e.e. wrth i berthynas agosaf ddweud beth yw cyfeiriad y claf) yna dylid cymryd mai preswylfa'r claf yw'r man lle mae'r uned sy'n darparu'r driniaeth⁵. Mae hyn yn berthnasol yn achos 'pobl heb gartref sefydlog'. Mae Rheoliadau 2009 yn darparu, os na ellir cadarnhau cyfeiriad arferol neu

³ Rh2(3)(a) O.S. 2009 Rhif 1511 (Cy.147) Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

⁴ Rh2(3)(b) (ibid)

⁵ Rh2(3)(c) (ibid)

gyfeiriad hysbys diwethaf y person, mae ef i gael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn yr ardal y mae'n bresennol ynddi⁶.

2.7 Mae'n bosibl y bydd rhai grwpiau penodol o gleifion, er enghraifft y rheiny sydd ag HIV neu AIDS, yn amharod i roi cyfeiriad. Mae'n ddigon, at ddiben cadarnhau cyfrifoldeb ariannol, fod y claf yn preswyllo mewn man (neu ardal bost) yn ardal ddaearyddol y BILL, heb fod angen union gyfeiriad⁷.

2.8 Rhaid peidio â holi claf yn ormodol wrth ofyn iddo am y wybodaeth hon, na'i 'arwain' i roi cyfeiriad arall er mwyn cael unrhyw fantais ariannol canfyddedig ar gam. Rhaid i gyrff ariannu'r GIG fod yn gyson yn y ffordd maent yn gweithredu rheolau a derbyn bod y dehongliad maent yn ei ddefnyddio wrth ariannu gofal yr un peth â'r dehongliad pan fo'n ofynnol i gyrff eraill ariannu gofal.

⁶ Rh2(3)(c) (ibid)

⁷ Rh2(3)(c) (ibid)

3. Eglurhad Pellach o'r Rheolau Preswyliaeth ar gyfer Grwpiau Penodol

Pobl â hawl i ddefnyddio'r GIG sy'n gofyn o wlad dramor am driniaeth

3.1 Os nad yw person yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ond bod ganddo hawl o hyd i driniaeth am ddim gan y GIG, bydd yr un egwyddorion ag a nodir uchod yn berthnasol iddo. Ym mhob achos o'r fath, cyfrifoldeb y claf a'i deulu yw talu costau dychwelyd i'r Deyrnas Unedig.

Pobl sy'n mynd yn sâl mewn gwlad dramor

3.2 Os yw person sydd â hawl i driniaeth am ddim gan y GIG yn mynd yn sâl mewn gwlad dramor, bydd yr un egwyddorion ag a nodir uchod yn berthnasol i unrhyw driniaeth angenrheidiol ar ôl iddo dychwelyd i'r Deyrnas Unedig.

Ymwelwyr o Wledydd Tramor

3.3 Mae yna reoliadau⁸ sy'n gosod cyfrifoldeb ar ysbytai'r GIG i gadarnhau a yw person nad yw'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig o bosibl yn gyfrifol am dalu ffioedd neu wedi'i eithrio o dan un o nifer o gategoriâu eithriadau, a chodi ffioedd ar gleifion os oes angen. Trowch at ganllawiau cyfredol a dogfennau ategol Llywodraeth Cymru ar:

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/implementing/?s_kip=1&lang=cy

Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Aflwyddiannus

3.4 Mae person sydd wedi gwneud cais ffurfiol i gael lloches yn y Deyrnas Unedig yn cael ei ystyried, ar unrhyw adeg o'i gais, yn aelod o'r boblogaeth breswyl ac felly bydd yr un egwyddorion ag a nodir yn Adran 2 yn berthnasol i'r corff cyfrifol.

3.5 Mae gan geiswyr lloches a'u dibynyddion hawl i driniaeth gan y GIG heb dalu ffioedd wrth aros am benderfyniad terfynol ar eu ceisiadau. Mae ceiswyr

⁸ Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 [O.S. 1989/306]

lloches sy'n cael cymorth gan yr Asiantaeth Ffiniau hefyd yn gymwys i gael tystysgrif HC2 i gael cymorth gyda phresgripsiynau, profion golwg, triniaeth ddeintyddol, gwalltiau gosod a staesiau ffabrig GIG, costau teithio angenrheidiol i'r ysbyty ac o'r ysbyty i gael triniaeth gan y GIG o dan ofal meddyg ymgynghorol, a gwerth llawn taleb optegol GIG tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd.

3.6 Os nad yw ceisiwr lloches yn gymwys i gael cymorth gan yr Asiantaeth Ffiniau, mae'n dal i fod yn gymwys i gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol ac mae ganddo hawl i gael holl wasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, ni ddyroddir tystysgrif NC2 iddo'n awtomatig a bydd angen iddo wneud cais am un gan ddefnyddio ffurflen HC1.

3.7 Os nad yw cais ceisiwr lloches am loches wedi llwyddo a'i fod wedi dod i ddiwedd y broses apelio, mae gan yr unigolyn hawl i barhau ag unrhyw gwrs triniaeth a ddechreuodd pan oedd ei gais am loches yn cael ei ystyried, heb ffi, cyhyd â'i fod yn aros yn y Deyrnas Unedig. (Mae gan geiswyr lloches aflwyddiannus hawl hefyd i gael triniaeth y mae ei hangen ar unwaith, ac i gofrestru gyda phractis ymarfer cyffredinol fel claf GIG ar ddisgresiwn yr ymarferydd cyffredinol).

3.8 Mae'r un egwyddorion ag a nodir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn Adran 7 yn berthnasol i blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches. I gael mwy o wybodaeth ynghylch ffoaduriaid ewch i:

<http://www.welshrefugeecouncil.org/>

<http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/>

Mewnfudwyr dan gadw

3.9 Os yw person nad yw'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig fel arfer yn cael ei gadw ar sail sy'n gysylltiedig â'i statws mewnfudo, mae'r rheolau preswyliaeth

yn berthnasol, gan gymryd mai'r breswylfa yw'r man lle mae'r uned sy'n darparu'r driniaeth⁹.

Preswylwyr Dros Dro

3.10 Bydd y rheolau preswyliaeth a nodir yn Adran 2 yn berthnasol i'r corff cyfrifol am breswylwyr dros dro. Diffinnir preswilydd dros dro fel person fydd yn aros yn y wlad am gyfnod mwy na 24 awr ond llai na 3 mis.

Aelodau o'r Lluoedd Arfog

3.11 Mae'n ofynnol i BILlau ddatgofrestru aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi o restrau ymarferwyr cyffredinol ar ôl iddynt ymrestru yn y lluoedd arfog. Nid oes unrhyw gyfyngiad o'r fath ar ddibynyddion, a all aros ar gofrestr ymarferydd cyffredinol. Beth bynnag, mae gan aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi ac aelodau o luoedd arfog eraill sydd â chanolfan yn y Deyrnas Unedig hawl i gael triniaeth frys neu driniaeth mae ei hangen ar unwaith gan ymarferydd cyffredinol.

3.12 Gall aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi gael eu derbyn gan ymarferydd cyffredinol fel preswilydd dros dro. Fel arfer maent yn gwneud hyn pan fônt y tu allan i ddalgyrch un o ganolfannau meddygol y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn (DMS) neu pan nad yw darpariaeth gwasanaeth briodol gan y DMS ar gael. Dim ond am gyfnod rhwng 24 awr a thri mis mae triniaeth fel preswilydd dros dro'n berthnasol. Mae'r hawl hwn yn cynnwys aelodau sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety parau priod os bodlonir y meini prawf hyn.

3.13 Mae gan aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi ac aelodau o luoedd arfog eraill sydd â chanolfan yn y Deyrnas Unedig hawl i ddefnyddio cyfleusterau'r GIG yn llawn ar yr un sail â sifiliaid, os nad yw darpariaeth gofal iechyd filwrol briodol ar gael. Mae BILlau yn gyfrifol am sicrhau y darperir triniaeth gofal eilaidd i'r fath aelodau o luoedd arfog. Dylid penderfynu pa BILI sy'n gyfrifol yn y modd a nodir yn Adran 2, ac at ei gilydd cyfeiriad yr uned yn y Deyrnas Unedig sy'n ganolfan i'r person fydd y breswylfa arferol.

⁹ (ibid)

3.14 Mae gan aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi sy'n gwasanaethu mewn gwledydd tramor hawl hefyd i ddefnyddio cyfleusterau ysbytai'r GIG yn llawn heb ffi. Ar gyfer aelodau o Luoedd Ei Mawrhydi sydd mewn canolfannau y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn barhaol, dylid defnyddio cyfeiriad y sefydliad sy'n darparu'r driniaeth i benderfynu'r corff cyfrifol yn y modd a nodir yn Adran 2.

3.15 Dylai rhai sydd wedi cael eu rhyddhau o Luoedd Ei Mawrhydi ac sy'n cael pecyn gofal parhaus gael eu trin mewn ffordd debyg i'r cleifion hynny sy'n symud (Adran 5) er mwyn sicrhau parhad gofal.

Pobl dan gadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

3.16 Os yw person dan gadw i gael triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac eithrio fel carcharor (gweler 3.18 i 3.21), mae'r rheolau preswyliaeth fel y'u nodir yn Adran 2.

3.17 Os yw dan gadw mewn ysbyty diogelwch canolig neu uchel, yna mae hyn yn dod o dan gyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran y saith BILI.¹⁰

Carcharorion

3.18 Mae person sydd dan gadw mewn unrhyw garchar yng Nghymru (ac eithrio Carchar y Parc ac yn achos gofal ysbyty seiciatrig o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yr ymdrinnir â hwy isod) i'w drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer ar gyfer y cyfnod y bo dan gadw yng nghyfeiriad y carchar.

¹¹ Ar ôl cael ei ryddhau bydd y rheolau preswyliaeth yn Adran 2 yn berthnasol i'r person.

3.19 Mae anghysondeb yn bodoli mewn perthynas â phobl sydd dan gadw yng Ngharchar y Parc. Ar eu cyfer hwy mae gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol yn cael eu hariannu a'u comisiynu trwy'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o

10 Adran 4 Deddf GIG Cymru 2006 a rh4 Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

¹¹ Yn unol â Chyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy 2006.

dan gontract preifat gyda phrif weithredwr y carchar. Mae gan y GIG gyfrifoldeb am iechyd a lles carcharorion yn y Parc ac mae'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal eilaidd/trydyddol y tu allan i'r carchar a gwasanaethau mewngymorth i'r carchar.

3.20 Yn achos carcharorion sy'n cael gofal ysbyty seiciatrig o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, y corff cyfrifol fydd y BILI perthnasol, fel y nodir yn 3.21. Os darperir y gofal mewn ysbyty diogelwch canolig neu uchel, y corff perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau'r fath wasanaethau yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran y BILlau.

3.21 Bydd y corff cyfrifol mewn achosion yr ymdrinnir â hwy yn 3.20 yn cael ei benderfynu ar sail preswylfa arferol cyn carcharu'r person, ac eithrio pobl sydd dan gadw mewn carchar ond sy'n preswyllo y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel arfer, pan mai'r BILI lle mae'r carchar fydd y corff cyfrifol. Os yw'n profi'n amhosibl cadarnhau'r breswylfa arferol a/neu gofrestrriad gydag ymarferydd cyffredinol cyn carcharu'r person, dylid dehongli'r breswylfa arferol fel yr ardal lle cyflawnwyd y drosedd (neu'r drosedd honedig yn achos carcharorion sydd heb eu collfarnu). Mae'r dehongliadau hyn yn gyffredin i Gymru ac i Loegr.

Pobl Heb Gartref Sefydlog

3.22 Os ystyrir bod person heb gartref sefydlog, mae'r rheolau preswylfaeth yn berthnasol, a chymerir mai preswylfa'r claf yw'r man lle mae'r uned sy'n darparu'r driniaeth.

Myfyrwyr

3.23 Mae myfyrwyr sy'n cofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yn y man lle maent yn cael addysg bellach neu uwch yn dod yn gyfrifoldeb i'r BILI neu gorff cyfatebol yn yr ardal honno. (Gweler hefyd 5.7)

4. Eithriadau i'r Rheolau Preswyliaeth ar gyfer Gwasanaethau Penodol

Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys

4.1 Mae BILlau'n gyfrifol am ddarparu ac ariannu Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys i bob person sy'n bresennol yn yr ardal (heb ystyried preswylfa neu gofrestrriad) a disgwylir iddynt sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli.

Gwasanaethau Iechyd Rhywiol

4.2 Mae BILlau'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd rhywiol i'r holl bobl sy'n bresennol yn yr ardal (heb ystyried preswylfa neu gofrestrriad) a disgwylir iddynt sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli.

4.3 Clinigau gwasanaethau iechyd rhywiol yw'r prif fan cyswllt o hyd ar gyfer diagnosis o a thriniaeth am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, gan gynnwys Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol (HIV), er bod llwybrau eraill i gael mynediad i'r gwasanaethau hyn yn bodoli. Mae gwasanaethau iechyd rhywiol (cwnsela cyn ac ar ôl prawf a phrofion a thriniaeth am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a thrafodaeth cyn prawf, cwnsela ar ôl prawf a phrofion am HIV) yn cael eu darparu ar sail mynediad agored, cyfrinachol, heb ystyried cyfeiriad y claf.

4.4 Dylai triniaeth HIV a roddir ar ôl prawf cadarnhaol i gadarnhau HIV a chwmsela ar ôl prawf, gan gynnwys rhagnodi therapïau cyffuriau gwrth-retrofeirysol cyfun a monitro cysylltiedig, gael eu cynllunio ar sail gydweithredol gan BILlau fel gwasanaeth arbenigol o dan drefniadau a wneir gyda'r BILl cyfrifol/arweiniol. Y rheolau preswyliaeth sy'n penderfynu'r corff cyfrifol i godi tâl arno.

4.5 Nid oes gan ymwelwyr o wledydd tramor sydd heb hawl i driniaeth GIG am ddim hawl ond i gael y prawf HIV a'r drafodaeth/cwnsela cysylltiedig yn ddi-dâl. Rhaid talu am y driniaeth ac unrhyw gyffuriau yn ei sgil.

5. Y Rheolau Preswyliaeth mewn perthynas â ffiniau mewnol y Deyrnas Unedig

Protocol Trawsffiniol Cymru a Lloegr

5.1 Yn gyfreithiol, mae BILlau'n gyfrifol am sicrhau gwasanaethau i'w preswylwyr. Fodd bynnag, weithiau mae'n fwy hwylus i breswylwyr gofrestru gydag ymarferwyr cyffredinol dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyd-protocol interim sy'n ymdrin â'r sefyllfa lle mae rhywun sy'n preswyllo yng Nghymru wedi'i gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yn Lloegr, a lle mae rhywun sy'n preswyllo yn Lloegr wedi'i gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yng Nghymru. Gellir gweld y protocol cyfredol, nad yw'n dileu'r cyfrifoldeb gyfreithiol yn y fath achosion, ar lein ar:

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/protocol/?skip=1&lang=cy>

5.2 Dim ond i breswylwyr sy'n byw ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr mae'r protocol yn berthnasol; yn achos Cymru, y rheiny sy'n byw yn Sir y Fflint, Wrecsam, Powys a Sir Fynwy. I gleifion sy'n preswyllo mewn mannau eraill yng Nghymru bydd eu corff cyfrifol yn cael ei benderfynu fel y man mae'r claf yn ei ddiffinio fel ei breswylfa arferol fel yn Adran 2.

5.3 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r cyfrifoldeb am sicrhau ac ariannu gwasanaethau ac eithrio sgrinio, o dan y protocol:

Preswylfa	Lleoliad yr ymarferydd cyffredinol	Cyfrifol am sicrhau gwasanaethau	Corff sy'n gyfrifol yn gyfreithiol
Cymru	Cymru	BILI	BILI
Lloegr	Lloegr	PCT/CCG	PCT/CCG
Cymru	Lloegr	PCT	BILI
Lloegr	Cymru	BILI/CCG	PCT/CCG

Ar gyfer gwasanaethau sgrinio mae'r cyfrifoldeb wedi'i nodi yn y tabl isod:

Preswylfa	Lleoliad yr ymarferydd cyffredinol	Cyfrifol am sicrhau gwasanaethau	Corff sy'n gyfrifol yn gyfreithiol
Cymru	Cymru	Iechyd Cyhoeddus Cymru – BILL am driniaeth	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Lloegr	Lloegr	PCT/CCG	PCT/CCG
Cymru	Lloegr	Iechyd Cyhoeddus Cymru – BILL am driniaeth	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Lloegr	Cymru	PCT/CCG	PCT/CCG

5.4 Bydd fersiwn cyfredol y protocol yn rhedeg hyd 31^{ain} Mawrth 2013. Mae protocol trawsffiniol cynhwysfawr i fod yn weithredol o 1^{af} Ebrill 2013 ymlaen.

5.5 Mae BILLau trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru hefyd yn gyfrifol am gynllunio, ariannu, dylunio, datblygu a sicrhau y cyflenwir gwasanaethau arbenigol a thrydyddol ar gyfer y preswylwyr yn eu hardaloedd priodol.

Newidiadau i gyfrifoldeb pan fo pobl yn symud eu preswylfa ar draws ffiniau mewnol y Deyrnas Unedig

5.6 Os yw person yn symud i mewn i neu allan o ardal BILL, mae'r rheolau preswyliaeth yn golygu bod y corff cyfrifol yn newid. Pan fo cleifion yn symud o Gymru i Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu fel arall, y corff cyfrifol am ddarparu gofal iechyd unigolyn yw'r un lle mae'r person yn preswyllo yn awr. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad yw'r person wedi datgofrestru o restr ei ymarferydd cyffredinol blaenorol eto. Byddai disgwyl iddo gofrestru gydag ymarferydd cyffredinol cyn gynted ag y bo modd.

5.7 Yn achos person sy'n byw y tu allan i Gymru am rannau o'r flwyddyn, er enghraifft myfyriwr neu berson sydd i ffwrdd yn ystod yr wythnos waith, os yw'r person hwnnw wedi cofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yn Lloegr, y PCT/CCG fydd y corff cyfrifol, hyd yn oed os yw'r person yn rhoi Cymru fel ei

breswylfa. Os yw person sy'n byw y tu allan i Gymru am rannau o'r flwyddyn yn rhoi ei gyfeiriad fel cyfeiriad yng Nghymru ac nad yw'r person hwnnw wedi cofrestru gydag ymarferydd cyffredinol yn Lloegr, yna ei BILI preswyllo fydd y corff cyfrifol.

5.8 Os yw person yn symud yn ystod cwrs y driniaeth, mae'r rheolau preswyliaeth arferol yn berthnasol ac felly mae'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r corff cyfrifol gwahanol fel bo'n briodol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw parhad y gofal yn cael ei danseilio.

5.9 Os yw claf yn symud tra ei fod yn aros am driniaeth fel claf mewnlol neu glaf dydd, yna y BILI y mae'r claf yn byw yn ei ardal ar y dyddiad mae'n cael ei dderbyn i'r ysbyty fydd yn gyfrifol am dalu cost y driniaeth a'r gofal hwnnw i'r claf mewnlol.

5.10 Dylai'r penderfyniad i drosglwyddo claf sydd â chyflwr hirdymor neu sy'n cael triniaeth arbenigol rhwng Cymru a Lloegr gael ei wneud ar sail angen y claf, gyda chytundeb rhwng yr awdurdod sy'n lleoli'r claf a'r awdurdod sy'n ei dderbyn, a chytundeb y claf lle bynnag y bo modd.

6. Y Corff Cyfrifol am Ofal Hirdymor a Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn Cartrefi Gofal

Trefniadau Gofal Hirdymor

6.1 Diffinnir gofal hirdymor fel gofal a ddarperir dros gyfnod estynedig o amser i berson 18 oed neu hŷn i ddiwallu anghenion iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi codi o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch.¹² Mae gan y GIG ac awdurdodau lleol fel ei gilydd gyfrifoldebau am drefnu ac ariannu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth ac mae eglurder ynghylch cymhwysedd a chyfrifoldeb am ariannu'n bwysig. Dylid penderfynu'r corff iechyd cyfrifol fel y nodir yn Adran 2, ac eithrio fel y nodir yn y paragraffau isod.

Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG mewn Cartrefi Gofal

6.2 Mae'r BILI sy'n gyfrifol am ariannu gofal a ddarperir gan nyrs gofrestredig mewn cartref gofal yn cael ei benderfynu'n unol â'r rheolau preswyliaeth yn Adran 2. Mae hyn yn golygu, lle bo person yn cael ei leoli ar draws ffiniau, y bydd y cyfrifoldeb am ariannu Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG (FNC) gan y BILI sy'n derbyn y person. Lle bo person yn cael gofal seibiant preswyl yn achlysurol trwy leoliad nyrsio mewn cartref gofal mewn ardal arall, bydd y bwrdd iechyd sy'n ei leoli'n dal i fod yn gyfrifol am y person, gan gynnwys bod yn gyfrifol am ei ariannu.

6.3 I'r rheiny sy'n cael cymorth ariannol gan awdurdodau lleol, fel arfer yr awdurdod lleol tarddiad fydd yn gyfrifol o hyd am ariannu'r llety a'r gofal personol. Bydd angen i'r holl awdurdodau perthnasol gydgyssylltu eu trefniadau asesu a chynllunio er mwyn sicrhau prosesau lleoli effeithiol a didrafferth.

6.4 Os yw person yn preswylion barhaol mewn cartref gofal ac yn cael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG (gyda chostau'r llety'n cael eu talu gan yr awdurdod lleol neu gan y preswlydd ei hun), mae'r BILI sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd, gan gynnwys gofal nyrsio, yn cael ei benderfynu gan y

¹² <http://www.wales.nhs.uk/document/168534>

rheolau preswyliaeth yn Adran 2. Y corff cyfrifol yw'r BILL ar gyfer yr ardal lle mae'r cartref gofal. Ni ddylai hyn gyfyngu ar hawl y claf i ddewis ei ymarferydd cyffredinol ei hun. Fodd bynnag, mae angen i'r practis ymarfer cyffredinol a ddewisir ddarparu gwasanaethau yn nalgylch y cartref gofal.

6.5 Dylid nodi bod cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn egwyddorion gwahanol ac ymdrinnir â hynny mewn canllawiau ar wahân - *Ordinary Residence - Personal Social Services WOC 41/93*. Pan fo awdurdodau lleol yn lleoli preswylwyr sydd hefyd ag anghenion iechyd, rhaid iddynt gydweithio'n agos â'r BILL sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal iechyd i sicrhau y gwneir asesiad llawn o anghenion iechyd a bod pecyn gofal priodol yn weithredol. Bob amser mae'n rhaid ystyried cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG (CHC) cyn unrhyw ystyriaeth o gymhwysedd i gael FNC. Rhaid ystyried cymhwysedd i gael FNC neu CHC cyn lleoli person. Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i unigolion sy'n symud o ofal seiciatrig diogelwch uchel i leoliadau preswyl.

6.6 Mae protocol a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd ar gyfer lleoliadau rhwng Cymru a Lloegr wedi cael ei gyhoeddi ar wahân. Mae'r protocol yn sail i ddatrysiadau lleol i sicrhau bod pob claf yn cael y gwasanaethau yr asesir ei fod eu hangen a gellir ei weld ar lein ar:

http://www.dh.gov.uk/en/Healthcare/IntegratedCare/NHSfundednursingcare/DH_4000400

Gofal Iechyd Parhaus y GIG mewn Cartrefi Nyrsio

6.7 Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC) yn becyn gofal a drefnir ac a ariennir gan y GIG yn unig, pan aseswyd mai angen iechyd yw prif angen yr unigolyn.

6.8 Mewn achosion pan asesir bod person yn gymwys i gael CHC a'i fod yn cael ei leoli, neu eisoes wedi cael ei leoli, mewn cartref gofal y tu allan i'w ardal gartref, y BILL sy'n ei leoli fydd yn gyfrifol o hyd am ariannu'r lleoliad yn y cartref gofal. Dylai'r BILLau sy'n ymwneud ag achosion o'r fath gysylltu i sicrhau bod trefniadau priodol yn weithredol cyn i'r claf symud.

6.9 Disgwylir y bydd dewis unigolyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu lleoliad y gofal ac y bydd Canllawiau Ategol Llywodraeth Cymru i WHC(2004)066/NAFW46/2004 *Procedures when discharging patients from hospital to a care setting* yn cael eu hystyried fel fframwaith ar gyfer ymarfer da. Er y bydd dewis yr unigolyn yn cael ei ystyried, mae gan y BILI gyfrifoldeb i sicrhau bod y lleoliad yn briodol i ddiwallu'r angen asesedig ac felly'r GIG sy'n gwneud y penderfyniad yn y pen draw.

6.10 Y BILI sy'n lleoli'r person sy'n dal i fod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r lleoliadau a wneir y tu allan i'w ardal. Gellir gwneud hyn naill ai gan y BILI sy'n lleoli'r person neu drwy drefniant cyfatebol cytunedig gyda'r BILI y mae'r unigolyn yn cael ei leoli yn ei ardal.

6.11 Os darperir Gofal Iechyd Parhaus y GIG i glaf yn ei gartref ei hun neu gartref perthnasau, a'i fod ef neu ei berthnasau y mae'n preswyl yn eu cartref yn penderfynu symud tŷ'n barhaol (nid i ofal preswyl), mae'r corff sy'n gyfrifol am y fath ofal yn cael ei benderfynu'n unol ag Adran 2. Os yw'n berthnasol, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sy'n ei leoli a'r Bwrdd Iechyd sy'n ei dderbyn gydweithio i gynllunio'r gwaith o drosglwyddo'r pecyn CHC yn y gymuned yn ofalus o'r naill leoliad i'r llall. Bydd y ddau BILI yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod y trefniadau'n gynlluniedig ac yn briodol, ac y'u gwneir mewn modd amserol, yn enwedig os oes angen prosesau trywydd cyflym. Awgrymir mai arfer da yw bod cyfnod trosglwyddo o dri mis, pan fydd y BILI sy'n lleoli'r claf yn parhau i'w ariannu, er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchiadau hynny pan fo'r gofal am gyfnod byr.

6.12 Er mwyn sicrhau parhad gofal a bod y trefniadau er budd pennaf y claf, mae'n bosibl y bydd angen i BILlau ddod i gytundeb ynghylch sut y dylid cyflenwi'r gwasanaethau. Yn benodol, bydd BILlau eisiau ystyried datrysiadau hyblyg y cytunir arnynt yn lleol (e.e. gofal i'r claf yn cael ei ddarparu gan BILl arall sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran).

7. Y Corff Cyfrifol am Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc

7.1 Mae'r rheolau preswyliaeth safonol a nodir yn adran 2 yn berthnasol i'r achosion canlynol:

- disgyblion sydd mewn ysgol breswyl;
- disgyblion ysgol anghenion addysgol arbennig;
- plant sy'n cael eu lleoli gan wasanaethau cymdeithasol neu drwy drefniadau cydariannu rhwng BILlau, gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau addysg lleol.

Plant sy'n Derbyng Gofal

7.2 O dan Ddeddf Plant 1989, diffinnir plentyn fel un sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw dan ei ofal neu os yw'r awdurdod yn darparu llety iddo am fwy na 24 awr. Mae'r fath blant yn dod o dan bedwar prif grŵp:

- plant sy'n cael llety o dan gytundeb gwirfoddol gyda'u rhieni (Deddf Plant 1989, adran 20);
- plant sy'n destun gorchymyn gofal (Deddf Plant 1989, adran 31) neu orchymyn gofal dros dro (Deddf Plant 1989, adran 38);
- plant sy'n destun gorchymynion brys i amddiffyn y plentyn (Deddf Plant 1989, adrannau 44 a 46); a
- phlant sy'n cael llety'n orfodol gan gynnwys plant sy'n remandio i'r awdurdod lleol neu sy'n destun gorchymyn goruchwylio cyfiawnder troseddol gyda gofyniad preswyliaeth (Deddf Plant 1989, adran 21).

7.3 Mae *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*¹³ yn disodli'r rheol 'preswyliaeth arferol' ac yn dweud yn glir bod y BILI tarddiad yn dal i fod yn gyfrifol am bob plentyn sy'n derbyn gofal sy'n cael ei leoli neu ei symud i sir arall ar ôl mis Gorffennaf 2007.

7.4 Pan fo plentyn yn cael ei leoli gan awdurdod lleol gyntaf, mae gan yr awdurdod hwnnw gydgyfrifoldeb gyda'r BILI tarddiad i sicrhau y gwneir asesiad iechyd llawn ac y llunnir cynllun iechyd. Er mwyn osgoi oedi, dylid gwneud y trefniadau ar gyfer asesiadau iechyd cyn i'r plentyn gael ei leoli a

¹³ <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/towards/?skip=1&lang=cy>

heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad ei leoli, oni fo asesiad iechyd wedi cael ei wneud yn y tri mis diwethaf.¹⁴

7.5 Dylai'r BILL perthnasol gael ei hysbysu mewn ysgrifed gan yr awdurdod lleol cyfrifol o'i fwriad i leoli plentyn yn ei ardal a dylid dweud wrtho a fwriedir i'r lleoliad fod yn un tymor byr neu dymor hir. Mae angen trefnu rhai lleoliadau ar frys ac ni fydd yn bosibl rhoi hysbysiad ymlaen llaw bob amser. Yn yr achosion hyn dylid hysbysu'r BILL perthnasol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a heb fod yn hwyrach na deg diwrnod gwaith ar ôl dyddiad lleoli'r plentyn.¹⁵

7.6 Mae canllawiau yn nodi fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gan asiantaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc yn y system gofal yn effeithiol yn yr arfaeth.

Lleoliad/Llety y Tu Allan i'r Ardal i Blant a Phobl Ifanc

7.7 Mae plant sy'n cael eu lleoli oddi cartref yn grŵp sy'n arbennig o agored i niwed ac mae yna gryn dipyn o ddeddfwriaeth ar gyfrifoldebau'r GIG ac Awdurdodau Lleol i hybu a diogelu lles plant sy'n cael eu lleoli neu sy'n cael llety y tu allan i'r ardal.

7.8 Mae Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009¹⁶ yn dweud y bydd y BILL tarddiad (y BILL a wnaeth y trefniant i leoli'r plentyn) neu'r BILL oedd yn gyfrifol yn union cyn i awdurdod lleol wneud trefniant o'r fath, yn dal i fod yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd eilaidd i rai categorïau penodol o blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal (yn ardal y BILL sy'n eu derbyn) gan awdurdod lleol (gwasanaethau cymdeithasol neu adran addysg) neu BILL. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o ran gofal iechyd sylfaenol, lle nad yw'r BILL tarddiad yn dal i fod yn gyfrifol am ofal iechyd sylfaenol plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal¹⁷. Mae darpariaethau tebyg yn weithredol yn Lloegr ac yn berthnasol i leoli plant ar draws y ffin yng Nghymru.

¹⁴ rh8(1) a (5) Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 [O.S. 2007/310]

¹⁵ rh6 (ibid)

¹⁶ rh3

¹⁷ Rh3(4) O.S. 2009 Rhif 1511 (Cy.147) Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cymru, Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

7.9 Mae'r darpariaethau'n berthnasol i'r categorïau canlynol o blant ac yn parhau i fod yn berthnasol iddynt fel pobl ifanc hyd at 21 oed, ar yr amod eu bod yn un o'r categorïau yn union cyn cyrraedd 18 oed:

- plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol;
- pobl sy'n gadael gofal;
- plant sy'n gymwys i gael cyngor a chymorth gan awdurdod lleol o ganlyniad i fod yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, neu a fu'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar unrhyw adeg ar ôl cyrraedd 16 oed;
- plant sy'n preswyllo mewn ysgol a enwir yn eu Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA); a
- phlant ag anghenion iechyd parhaus (er enghraifft, lleoliad iechyd hirdymor neu leoliad mewn ysbyty, uned cleifion mewnol neu gartref plant annibynnol).

7.10 Bydd y BILI tarddiad yn dal i fod yn gyfrifol am anghenion gofal iechyd eilaidd parhaus y plentyn hyd yr adeg pan na fydd y plentyn yn gymwys mwyach. Felly, bydd y BILI tarddiad yn cadw'r cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol am holl anghenion gofal eilaidd y plentyn hwnnw hyd nes ei fod yn cyrraedd 18 oed, ac wedi hynny hyd at 21 oed os yw'r person ifanc yn parhau i fod yn un o'r categorïau rhagnodedig hyd at yr adeg y cyrraeddodd 18 oed. Ar ôl i'r plentyn droi'n oedolyn (yn 18 oed neu'n 21 oed gan ddibynnu ar y meini prawf a grybwyllir uchod) byddai'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r BILI lle mae'r oedolyn ifanc yn preswyllo. Rhaid i'r BILI tarddiad ystyried anghenion parhaus y plentyn cyn iddo gyrraedd 18 oed neu 21 oed (gan ddibynnu ar y meini prawf) a thrafod yr anghenion hynny gyda'r BILI preswyllo, er mwyn sicrhau y trosglwyddir yn ddidrafferth i wasanaethau oedolion.

7.11 Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol ond i drefniadau a wnaethpwyd ar ôl 1 Gorffennaf 2007 ac nid ydynt yn ôl-weithredol. Ar gyfer plant a leolwyd gan awdurdod lleol mewn llety yn ardal BILI arall neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol yn Lloegr cyn 1 Gorffennaf 2007 ac a gafodd eu symud eto wedyn

gan yr awdurdod lleol i lety mewn ardal arall ar ôl 1 Gorffennaf 2007, y BILL cyfrifol fydd y BILL y mae'r awdurdod lleol yn ei ardal. Mae hyn yn hybu cysondeb â'r egwyddor mai'r corff cyfrifol yw'r BILL sy'n gydffiniol â'r awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn.

7.12 Mae'r BILL tarddiad yn dal i fod yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd eilaidd i blant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r ardal gan awdurdod lleol neu BILL. Mae darpariaethau tebyg yn weithredol yn Lloegr ac yn berthnasol i leoli plant ar draws y ffin yng Nghymru.

7.13 Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried lleoli plentyn y tu allan i'r ardal, mae o dan ddyletswydd i atgyfeirio achos y plentyn i banel amlasiantaethol cyn lleoli'r plentyn. Mae'r Panel yn gyfrifol am gadarnhau bod y lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd, ac am gytuno ar y trefniadau angenrheidiol. Rhaid i'r BILL sicrhau ei fod yn darparu cynrychiolaeth briodol a chyingor proffesiynol i'r panel a'i fod yn cydweithredu â'r trefniadau. I gael mwy o wybodaeth trowch i Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 a Phennod 1 o Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell.

7.14 Os yw plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei symud y tu allan i'r ardal, dylid gwneud trefniadau trwy drafodaethau rhwng y rheiny sy'n darparu'r gofal iechyd ar y pryd, y BILL fydd yn derbyn y plentyn, a'r darparwr perthnasol, er mwyn sicrhau parhad gofal iechyd. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd BILLau eisiau ystyried a chytuno ar ddatrysiadau hyblyg, megis y BILL sy'n derbyn y plentyn yn cyflawni swyddogaethau ar ran y BILL sy'n ei leoli, am gyfnod penodol o amser.

7.15 Ni ddylid gadael i unrhyw newidiadau i'r awdurdod cyfrifol darfu ar yr amcan terfynol, sef darparu gofal amserol o ansawdd da i'r plentyn neu berson ifanc unigol. Mae'n bwysig sicrhau y trosglwyddir gofal clinigol yn ddiraffferth lle mai hwnnw yw'r trefniant gorau y cytunir arno i'r plentyn. Ni ddylai fod angen asesiad newydd bob amser.

Lleoliadau Arbenigol i Blant

7.16 Ar gyfer lleoliadau a wneir mewn sefydliadau arbenigol iechyd neu addysg i ddiwallu anghenion penodol plant arbennig o agored i niwed, y bydd llawer ohonynt ag anghenion iechyd cymhleth neu anghenion eraill cymhleth (e.e. CAMHS), bydd yn ofynnol i bob BILI sicrhau y cyflenwir gwasanaethau trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

8. Gwasanaethau Cludiant Ambiwylans Brys a Gwasanaethau Gofal Cleifion mewn Achosion nad ydynt yn rhai brys (PCS)

8.1 O 1^{af} Ebrill 2010 ymlaen mae BILLau, trwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, yn gyfrifol am gynllunio, ariannu, dylunio, datblygu a sicrhau y cyflenwir gwasanaethau cludiant ambiwlans brys.

8.2 Yn achos trosglwyddiadau gofal critigol rhwng ysbytai GIG, os yw claf yn cael ei atgyfeirio fel achos brys o'r naill ysbyty i'r llall, y corff cyfrifol yw'r BILL lle mae'r ysbyty sy'n atgyfeirio'r claf.

8.3 Diffinnir gwasanaethau gofal cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys (PCS) fel cludiant cynlluniedig, heb fod ar frys, i gleifion sydd ag angen meddygol am gludiant i ac o safle sy'n darparu gofal iechyd GIG, a/neu rhwng darparwyr gofal iechyd GIG. Yn yr achosion hyn mae'r BILL cyfrifol yn cael ei benderfynu fel y nodir yn Adran 2.